


Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

# RHAN CAFFAEL CYHOEDDUS YN NHRAWSFFURFIO SYSTEM FWYD CYMRU

www.farmgarden.org.uk

Cyhoeddwyd: Mai 2023

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# CRYNODEB

Nid yw Cymru'n cynhyrchu ond cyfran fechan yn unig o'r holl fwyd a fwytawn, ac y mae hyn yn arbennig o wir yn achos ffrwythau a llysiau. Mae Covid, Brecsit a'r argyfwng costau byw wedi arwain at ansicrwydd ynghylch argaeledd bwys ffres a chynnydd sydyn mewn prisiau. Ar yr un pryd, mae effeithiau newid yn yr hinsawdd yn peri methiant cynaeafau ledled y ddaear ar raddfa na fu ei bath.

Trwy gynyddu cynhyrchu ffrwythau a llysiau yng Nghymru i'w bwyta'n lleol gallem gwtogi ein cadwynau cyflenwi. Caniatâi hyn inni fwy o reolaeth dros effaith amgylcheddol technegau tyfu, medru cadw buddion economaidd a diwylliannol cynhyrchu lleol, a rhagor o gyfleoedd buddion iechyd trwy fwyta bwyd mwy maethlon.

Eithr y mae heriau peri hyn yn aml-haenog, ac yn gofyn cydweddu 'cyflenwad' a 'galw'. Er mwyn annog rhagor o dyfu bwyd yng Nghymru mae angen marchnad ar ei gyfer, a rhaid i'r pris fod yn gystadleuol.

Cafodd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol arian trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig 2014-2020, a ariennir gan y Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru i arloesi dwy ganolfan caffael bwyd newydd yn Sir Gaerfyrddin a Gogledd Powys. Amcanodd y prosiect ddangos y gall y sector cyhoeddus gaffael yn effeithlon gan gynhyrchwyr graddfa fechan gan ddefnyddio dulliau sy'n fuddiol i'r amgylchedd naturiol a ffyniant lleol.

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

# CYNNWYS


2 GOSOD YR OLYGFA

5 YR ARDDULL AMAETH-ECOLEGOL

6 CYFYNGIADAU OCHR GALW

7 CYFYNGIADAU OCHR CYFLENWI

8 CANOLBWYNTIAU BWYD CYNALIADWY - MODEL I BERI IDDO WEITHIO?

ASTUDIAETHAU ACHOS

10 - FOOTHOLD CYMRU

14 - CULTIVATE, Y DRENEWYDD

18 BETH ARALL SY'N DIGWYDD?

20 TIRWEDD POLISI CYMRU

24 GOSOD GWELEDIGAETH

25 CYNNIG TRYWYDD

28 AR BWY MAE ANGEN GWNEUD BETH, AC ERBYN PA BRYD?

32 BRYS GWEITHREDU

32 BUDDION EI WNEUD YN GYWIR

33 YSTYRIAETHAU TERFYNOL

# GOSOD YR OLYGFA

Mae'r adroddiad hwn:

- **YN CYNNIG** bod defnyddio cyflenwyr amaeth-ecolegol, graddfa-fechan, lleol yn dwyn buddion iechyd, amgylcheddol ac economaidd
- **YN AMLYGU** cyfyngiadau cytundebau sector cyhoeddus presennol
- **YN RHANNU** tystiolaeth o'n cynllun arloesi Canolbwyntiau Bwyd megis model goresgyn rhai o'r rhwystrau hyn
- **YN MYNEGI** gweledigaeth a thrywydd a drawsffurfient faint o ffrwythau a llysiau a gynhyrchwn yma yng Nghymru

Craidd yr adroddiad hwn yw rhan ddichonol sector cyhoeddus Cymru mewn ysgogi cynnydd sylweddol mewn cynhyrchion garddwrol yng Nghymru. Er mwyn esgor ar y budd mwyaf posibl, rhaid i'r arddull:

- **ROI'R FLAENORIAETH** i gyflogau byw gwirioneddol ar gyfer llafur medrus yn y sector garddwrol
- **GWOBRWYO** technegau tyfu atgynhyrchiol sy'n gwella iechyd a bioamrywiaeth ein pridd
- **RHOI GWERTH** ar gynnyrch llawn maeth sydd o fudd i iechyd
- **CADW CYNHYRCHU** yn lleol er mwyn gostwng allyriadau carbon trwy gludiant

Mae hyn yn gofyn llawer, a bydd ar unrhyw newid angen gweithredu ychwanegol a newid system gyfan ar wahanol lefelau, yn ogystal â chydlynu rhwng gwahanol sectorau a sefydliadau. Dylid, pwysleisio, hefyd, ein bod yn cychwyn o fan isel!



**Defnyddir rhagor na 90% o dir Cymru ar gyfer amaeth, ond nid yw'r sector ond yn cynhyrchu cyfanswm enillion o £305mn/y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o'n tir amaeth yn borfeydd (86%), ac y mae maint rhagor na 55% o'n ffermydd yn llai na 20Ha. Yn y cyd-destun hwn, nid yw garddwriaeth ond yn 2% o holl ddaliadau fferm Cymru, ac yn 6% o'r cyfanswm cynnyrch amaethyddol.**

Mae sector cyhoeddus Cymru yn gwario tua £84mn y flwyddyn ar fwyd. O hyn, â £7.2mn ar ffrwythau a llysiau, ond dim ond 6% o'r gwariant sector cyhoeddus ar ffrwythau a llysiau sy'n mynd at brynu cynnyrch o Gymru. Mae hyn yn codi'r cwestiwn: 'O ble mae'r 94% arall yn dod?'

**Gwariant sector cyhoeddus Cymru ar fwyd a diod yn ôl dosbarth yn 2019/20**

| | Cyfanswm Pryniannau | Prynwyd gan Gwmnïau Cymreig | % gan Gwmnïau Cymreig | O darddiad Cymreig | % tarddiad Cymreig |
|---|---|---|---|---|---|
| Llefrith | £8,067,781 | £6,130,926 | 76% | £5,691,663 | 71% |
| Llaethfwyd | £2,882,926 | £2,724,091 | 94% | £2,724,091 | 94% |
| Bara a Bwyd Pobi | £2,476,965 | £2,099,752 | 85% | £1,075,515 | 43% |
| Cig a Dofednod | £8,186,924 | £7,586,587 | 93% | £6,197,643 | 76% |
| Ffrwythau a Llysiau | £7,167,299 | £4,624,398 | 65% | £434,989 | 6% |
| Sefydlog, Ffres ac Wedi'i Rewi | £47,656,553 | £22,739,456 | 48% | £2,188,663 | 5% |
| Diodydd a Melysion | £8,025,754 | £2,621,377 | 33% | £624,011 | 8% |
| Dŵr | £314,514 | £234,517 | 75% | £239,853 | 76% |
| CYFANSWM | £84,778,716 | £48,778,159 | 58% | £19,176,428 | 23% |

Brookdale Consulting: Welsh Public Sector Food Procurement – Update in Spending and Welsh Purchasing



Mae'r ateb yn gymhleth ac yn fyd-eang, wrth gwrs, ond canlyniad cadwynau cyflenwi hirion, a'r datgysylltiad rhwng cynhyrchwr a defnyddwyr y mae hyn yn ei gynhyrchu, yw nad yw systemau bwyd yn ddigon cadarn i wrthsefyll ysgytiadau, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, rhyfel a phandemigau.

Lle nid yw defnyddwyr, gan gynnwys prynwyr sector cyhoeddus, yn ymwybodol o effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd eu dewisiadau prynu (a seilir yn aml ar bris cynnyrch), mae effeithiau negyddol nas bwriadwyd yn parhau. Yn ychwanegol, mae cadwynau cyflenwi hirion yn atal prynwyr rhag ennill buddion economaidd, iechyd ac amgylcheddol ehangach dichonol cynhyrchu bwyd.

A bod yn fwy cadarnhaol, mae llawer yn digwydd o ran annog rhagor o gynhyrchu yng Nghymru, gan gynnwys:

- Sefydlu **PARTNERIAETHAU BWYD CYNALIADWY**, â chymorth Llywodraeth Cymru, gyda thua £3mn o arian wedi'i glustnodi ganddi
- Datblygiad parhaus **STRATEGAETH BWYD CYMUNEDOL CYMRU**
- Sawl Awdurdod Lleol yng Nghymru yn ymorol am gymorth i ddatblygu **STRATEGAETHAU BWYD LLEOL**
- Cynigion ariannu arloesol o fewn y **CYNLLUN AMAETHU CYNALIADWY** (CAC)
- Ymchwilio a thrafod eang o ganlyniad i **HER DRIPHLYG** Brecsit, Covid a'r argyfwng costau byw, a phwysau cynyddol o blaid sefydlu trefn fwyd newydd ar gyfer Cymru
- Datblygiadau polisi a deddfwriaethol newydd ar raddfeydd Awdurdod Lleol a Senedd yn rhoi blaenoriaeth i **ADFER NATUR, BIOAMRYWIAETH, GWRTHSEFYLL NEWID YN YR HINSAWDD**
- Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i **LEIHAD EIN HÔL TROED BYD-EANG** parthed datgoedwigo, llafur gorfodol a mewnforio o wledydd sy'n wynebu her hinsoddol

Ond mae angen gwneud llawer rhagor er mwyn sicrhau y gall Cymru fod yn fwy hunangynhaliol o ran bwyd o ansawdd da. Byddai arddull gydlynedig sy'n ystyried iechyd, yr amgylchedd, yr economi a chenedlaethau'r dyfodol yn:

- **CADW GWERTH ECONOMAIDD** yn lleol trwy hyrwyddo'r Bunt Gymreig
- **AILGYSYLLTU** pobl â'u tir a'u treftadaeth trwy fwyd
- **CYNYDDU DIOGELED BWYD** yn ystod yr argyfwng costau byw
- **GWELLA GWERTH MAETHOL** bwyd a fwyteir mewn ysgolion, cartrefi gofal ac ysbytai
- **CREU SWYDDI CYNALIADWY LLEOL** trwy gynyddu nifer y tyfwyr
- **GWELLA BIOAMRYWIAETH A PHRIDDOEDD** trwy arferion amaeth-ecolegol

# YR ARDDULL AMAETH-ECOLEGOL

Amaeth-ecoleg yw amaethu cynaliadwy sy'n gweithio â natur. Ecoleg yw astudiaeth y berthynas rhwng planhigion, anifeiliaid, pobl a'u hamgylchedd, a'r cydbwysedd rhwng y perthnasau hyn. Amaeth-ecoleg yw defnyddio cysyniadau ac egwyddorion ecolegol mewn amaethyddiaeth. Mae amaeth-ecoleg yn hyrwyddo arferon amaethu sy'n:

- **LLINIARU NEWID YN YR HINSAWDD** - yn lleihau allyriadau, yn ailgylchu adnoddau ac yn blaenoriaethu cadwynau cyflenwi lleol
- **GWEITHIO Â BYWYD GWYLLT** - yn rheoli effaith amaethu ar fywyd gwyllt, ac yn defnyddio natur i wneud y gwaith caled inni, megis peillio cnydau a rheoli plâu
- **RHOI AMAETHWYR A CHYMUNEDAU YN Y SEDD YRRU** - maent yn rhoi grym i arddulliau tan arweiniad pobl leol ac yn addasu technegau amaethyddol at anghenion yr ardal leol, a'i hamgylchiadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd penodol

Mae ffermydd cymunedol a thyddynnod yn cynhyrchu canran fwy o fwyd/Ha na ffurfiau eraill ar amaeth. (A matter of Scale, Landworkers' Alliance 2017). Mae llawer yn amaethu'n organaidd, hefyd (weithiau'n ardystiedig), ac yn defnyddio arddulliau mwy llesol i ecoleg.
Gall cynhyrchwyr graddfa-fechan, fel prosiect Amaethu â Chymorth y Gymuned Cae Tan yng Ngŵyr, drefnu ymweliadau ysgol ar gyfer plant lleol, ac y mae i'r rhain ran bwysig mewn codi ymwybyddiaeth o o ble y daw bwyd a gwerth maethol ffrwythau a llysiau ffres.



# CYFYNGIADAU OCHR GALW

Pris ac ansawdd sy'n gyrru caffael bwyd o fewn y sector cyhoeddus, gan fwyaf, yn ogystal â gofynion Bwydlen Cymru Gyfan. O fewn y paramedrau hyn mae sawl rhwystr gweithredol sy'n atal rhagor o gaffael lleol, gan gynnwys:

- **ARFERION SWMP-BRYNU'R** sector cyhoeddus, sy'n lleihau gweinyddu i'r eithaf ac a ddefnyddir, yn aml, i yrru prisiau i lawr, yn hytrach nag ychwanegu gwerth cymdeithasol
- **DIFFYG TYFWYR CYMREIG** a all gyflenwi'r fath gytundebau mawrion, a gogwydd cynhenid tua phrynu gan gyfanwerthwyr a all fewnforio'r bwyd rhataf a gwarantu cyflenwad cyson
- Nid yw **DIFFINIAD ANSAWDD** yn ystyried gwerth maethol y cynnyrch. Mewn geiriau eraill, gwelir moronen megis dim ond moronen, waeth am y ffaith fod gwahanol ddulliau tyfu yn esgor ar wahanol gynnwys maethol. Dylai hyn fod yn arbennig o berthnasol ar gyfer bwyd a brynir gan y GIG, lle mae gwerth maethol ar gyfer cleifion a'r henoed yn arbennig o bwysig
- Mae **BWYDLENNI GOSOD** nad ydynt yn adlewyrchu argaeledd tymhorol ar gyfer ysgolion, cartrefi gofal ac ysbytai yn ffafrio cyflenwyr mwy ac yn gweithio yn erbyn cadwynau cyflenwi lleol



O ganlyniad, mae ein trefn bresennol, ynghyd â chyllidebau mwy cyfyng, yn golygu bod ein sector cyhoeddus yn mewnforio bwyd rhad o werth maethol bychan a milltiredd bwyd mawr. Mae'r cynnyrch hwn yn methu â chyfrannu llawer o ran cyflogaeth leol na chreu cysylltiadau â'n bwyd a'n tir.
Mae'n cynyddu ein hôl troed byd-eang, hefyd, trwy allanoli effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol y farchnad fwyd fyd-eang. Mae cymhlethdod ein system bwyd yn gwneud cydlynu polisïau'r Llywodraeth yn anodd. Ond fel y dadleua'r ddogfen hon, y mae rŵan gyfle unigryw, efallai, i annog arddull mwy cynaliadwy a gynhyrchai fuddion enfawr ar gyfer economi, amgylchedd , diwylliant ac iechyd Cymru.

# CYFYNGIADAU OCHR GYFLENWI

Yn ychwanegol, mae sawl her sy'n ei gwneud yn anodd cynyddu faint o ffrwythau a llysiau a dyfir yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **RHWYSTRAU CYNLLUNIO** sy'n llesteirio tyfwyr newydd graddfa-fechan
- Erys **MYNEDIAD AT DIR** yn rhwystr sylweddol rhag sefydlu busnesau garddwriaethol newydd
- Golyga arbedion maint fod offer **GOLCHI A PHARATOI CYNNYRCH** ar gyfer ceginau sector cyhoeddus, a thrafod cytundebau biwrocrataidd, yn ddrytach, o ran cyfran, ar gyfer busnesau graddfa fechan
- Mae **PRIS AC ARGAELEDD TAI GWLEDIG** yn broblem ar gyfer llawer o dyfwyr ar enillion bychain yng Nghymru
- Mae **RECRIWTIO** gweithwyr medrus angenrheidiol ar gyfer helpu â thyfu a chynaeafu yn aml yn anodd
- Mae **NEWID YN YR HINSAWDD** yn achosi ansicrwydd ar gyfer tyfwyr, gan gynnwys sychderau annisgwyl ynghyd â phyliau geirwon o wynt a glaw sy'n dinistrio cnydau
- Gadawyd i **ANSAWDD PRIDD** ddirywio, felly mae angen amser i'w adfer a symud at dyfu organaidd / mewnbwn bychan
- Mae **STOC A HEINTIAU HADAU** yn bygwth rhai mathau o gynnyrch
- Nid yw **CYFLEOEDD GYRFA** mewn garddwriaeth yn cael eu hyrwyddo i gymunedau a phobl ifanc amrywiol, gan gyfyngu cyflenwad tyfwyr y dyfodol
- Mae **HYFFORDDIANT MEWN AMAETH-ECOLEG** yn ddibynnol ar ewyllys da tyfwyr presennol ac nid yw'n darparu sicrwydd ansawdd
- Mae cyfleoedd **CYFLOG BYW GWIRIONEDDOL** yn neilltuol anodd eu cael trwy arddwriaeth amaeth-ecolegol



# CANOLBWYNTIAU BWYD CYMUNEDOL - MODEL I BERI IDDO WEITHIO?

Rhwystr pwysig i dyddynnod a phrynwyr sector cyhoeddus fel ei gilydd yw camgymhariad graddfa. Trwy osod canolbwynt bwyd tan arweiniad y gymuned yn y canol, gellir chwalu rhai o'r rhwystrau hyn. Mae canolbwyntiau cymunedol graddfa fechan, sy'n cyrchu gan gynhyrchwyr amaeth-ecolegol, ddeall yr anghenion a'r cyfleoedd a ddarperir gan y math hwn o gynhyrchu lleol. Gallant helpu dileu neu symleiddio gofynion gweinyddol ar dyfwyr, a darparu man cyswllt unigol ar gyfer archebion mwy yn y sector cyhoeddus. Gallant ddarparu data ynghylch buddion ehangach cynhyrchu lleol, amaeth-ecolegol, hefyd, a darparu cysylltiadau ar gyfer gwerth ychwanegol, fel ymweliadau ysgolion â ffermydd.

Dengys y ddwy astudiaeth achos yn yr adroddiad hwn ddichonoldeb datblygu Canolbwyntiau Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru.







# ASTUDIAETHAU ACHOS FOOTHOLD CYMRU

## Y CEFNDIR

Mae Foothold Cymru yn gwmni elusennol a fu'n gwasanaeth gorllewin Cymru ers rhagor na 30 mlynedd o Lanelli. Bu'n cynnal sawl cynllun yn ymwneud â bwyd, yn ogystal â gardd gymunedol, cyn y Canolbwynt Bwyd Cynaliadwy. Maent yn codi'r cynnyrch gan y tyfwr, yn ei archwilio, a'i olchi, yna'n ei gyfuno â chynnyrch arall cyn ei ddosbarthu i gwsmeriaid sector cyhoeddus.

## Y RHAI FU Â RHAN

Yn ogystal â'r Rheolwraig Canolbwynt rhan amser, Helen Evans, fe'u cynorthwyir gan wirfoddolwyr sy'n helpu codi cynnyrch gan dyfwyr a'i ddanfon i gwsmeriaid. Bu Cyngor Sir Gaerfyrddin a Chastell Howell â rhan fawr, yn ogystal â chogyddion yr ysgolion a'r cartref gofal. Maent yn gweithio'n agos â'r Rhwydwaith Bwyd Agored wrth ddatblygu eu trefn archebu ar-lein.





## HERIAU, A SUT YR AETHPWYD I'R AFAEL Â NHW

Mae'r Canolbwynt yn gweithredu y tu allan i gytundeb, felly mae trothwy £5,000 yn cyfyngu eu gallu i werthu i'r Awdurdod Lleol. Ar hyn o bryd maent yn gweithredu o fewn y cyfyngiad hwn, ond ag angen cytundeb mwy i dalu eu ffordd. Gellid defnyddio tystiolaeth o'r cynllun arbrofol hwn i annog ymaddasiadau at dendrau Awdurdod Lleol yn y dyfodol. Bu deall natur dymhorol yn her, fel y mae cydweddu ceisiadau cwsmeriaid â'r amrywiaeth cynnyrch a dyfir yn lleol. Mae hyd yn oed cyfnewidiadau syml, i bob golwg, rhwng cogyddion sydd ag eisiau bresych a thyfwyr sy'n cynnig bresych crych, wedi eu gwrthod. Maent yn cynllunio peth hyfforddiant ar gyfer cogyddion er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ac amgyffrediad o natur dymhorol. Â chytundebau tymor hwy gan gwsmeriaid, gobeithia'r Canolbwynt annog tyfwyr i amrywio, hefyd.

Bu cydlynu danfoniadau â diwrnodau cynaeafu yn gryn her, yn enwedig wrth weithio â thyfwyr graddfa fechan a dymuno darparu cynnyrch ffres. Bu rhaid iddynt ddarbwyllo eu cwsmeriaid, yn enwedig y cartref gofal, i newid y diwrnodau y maent yn arfer derbyn llysiau.





# ASTUDIAETHAU ACHOS FOOTHOLD CYMRU

## CYFLEOEDD A DDAETH I'R AMLWG

Mae'r Canolbwynt wedi cael cefnogaeth sylweddol gan swyddogion yn yr Awdurdod Lleol a all benderfynu ynghylch arlwyo mewn cartrefi gofal ac ysgolion. Maent wedi darparu mynediad i gartrefi gofal lleol, ysgolion lleol (cynradd ac uwchradd), a'r bwyty ym Mharc Gwledig Pen-bre.

Maent yn achub cyfle i ddarparu ffrwythau a sudd ffrwythau i'r siop yn Ysbyty'r Tywysog Philip, hefyd, ar ran y Bwrdd Iechyd yn dilyn trafodaethau â'u Swyddog Caffael.





## YR HYN A GYFLAWNWYD HYD YN HYN?

**DANFONIADAU WYTHNOSOL** i Gartref Gofal Awel Tywi, Ffairfach sy'n darparu tri phryd y diwrnod i 68 o breswylwyr

**DANFONIADAU WYTHNOSOL**, ers Ionawr, i Ysgol Gynradd Stebonheath, Llanelli sy'n arlwyo 160 cinio'r dydd

Mae'r Canolbwynt wedi derbyn adborth da iawn gan ei holl gwsmeriaid sy'n awyddus i barhau i brynu eu llysiau ganddynt. Maent yn canmol yr ansawdd, y ffresni, yr aroglau a'r gwasanaeth. Maent wedi lleihau eu gwastraff bwyd ac, o ganlyniad, yr amser ar gyfer paratoi llysiau, yn ogystal â sefydlu bod galw am gynnyrch lleol ac awydd ei brynu ar weithwyr Cyngor Sir Gaerfyrddin. Yn wir, mae'r cogyddion yn rhoi pwysau arnynt i wneud hynny!

## GWERSI PWYSIG A DDYSGWYD

Mae'n bwysig sefydlu anghenion prynwyr cyn penderfynu ar y tyfwyr. Ar raddfa arloesol a heb gytundeb, mae gwerthiant cyfyngedig ar gyfer tyfwyr, sy'n ei wneud yn anodd cyfiawnhau newid eu rhestr cynnyrch, yn enwedig lle mae prisiau cyfanwerthu yn is na gwerthu uniongyrchol.
Gall cynnyrch lleol fod yn rhatach na llysiau oddi wrth gyfanwerthwyr, ond mae costau eraill y mae angen eu hystyried, gan gynnwys cludiant.



## CAMAU NESAF

- **SICRHAU RHAGOR** o farchnadoedd sector cyhoeddus
- **ANNOG RHAGOR** o dyfwyr i gyflenwi'r Canolbwynt
- **CYDWEDDU'R** math o gynnyrch a dyfir ar hyn o bryd yn well â gofynion cogyddion, trwy ganfod tir canol lle gallant ddarparu cnydau amgen sy'n cydweddu â bwydlenni presennol heb achosi paratoi na chostau ychwanegol i'r naill barti na'r llall
- **MAE AR DYFWYR** angen sicrwydd fod ganddynt farchnad ddiogel a digonol i'w darbwyllo i newid neu ehangu i gnydau newydd

# ASTUDIAETHAU ACHOS CULTIVATE - Y DRENEWYDD

## Y CEFNDIR

Mae Cultivate ar gyrion y Drenewydd â gofod tan-do trwy eu tŷ unllawr a'u gegin, yn ymyl 2.5 erw o dir tyfu, gan gynnwys rhandiroedd bychain, uned amaeth amgylchedd rheoledig (AARh), twnelau polythen ac offer a storfa perllan gynhyrchiol. Â 40 aelod mae ganddynt lawer o wirfoddolwyr, a buont yn cynnal gweithdai seiliedig ar fwyd ar bynciau tyfu, coginio a rhannu medrau er 2014, yn ogystal â defnyddio arddulliau arbrofol a chydweithio ag amryw bartneriaid a rhwydweithiau.

## Y RHAI FU Â RHAN


Hyd yma, y tyfwyr sy'n bartneriaid cyflawni'r Canolbwynt Bwyd yw:

John Phillips, Broniarth Farm (tatws a moron)

Emma Maxwell, Ash & Elm Horticulture (saladau)

Erw Edwards (ffrwythau)

Ashleigh Davies, Cultivate (microlysiau AARh)



Y cwsmeriaid presennol yw:

Cyngor Sir Powys

Coleg Castell Nedd Port Talbot

Pantri Swswen

Health Loaded (bwyty lleol)

Mae hyfforddiant a ddarparwyd drwy'r cynllun arloesi wedi cynnwys gweithwyr a myfyrwyr Coleg Castell Nedd Port Talbot a gweithwyr Cyngor Sir Powys, ynghyd â thyfwyr.

## HERIAU, A SUT YR AETHPWYD I'R AFAEL Â NHW

Powys yw sir fwyaf Cymru, ac y mae ei natur wledig yn creu anawsterau cludiant ar gyfer casglu a danfon cynnyrch ffres. Mae'r Canolbwynt wedi datrys hyn yn y tymor byr trwy weithio â thyfwyr sefydledig a danfon yn y cyffiniau'n unig yn y Drenewydd gan fwyaf, er iddynt fentro cyn belled i ffwrdd ag Ystradgynlais. Maent wedi ymweld â Chastell Howell, cludwr ar raddfa sylweddol, ac yn y tymor hwy byddant yn ymchwilio i ddulliau gweithio â phartner i ddanfon mewn modd mwy cost-effeithiol. Cyfyngiadau amser. Er mwyn rheoli hyn maent wedi canolbwyntio ar weithio â thyfwyr a chwsmeriaid presennol i brofi'r arddull a gwneud y gorau o'u cryfderau a phrofi bod y model yn gweithio. Cynnydd costau cynnyrch amaeth-ecolegol o gymharu â phrisiau cyfanwerthu. Ar hyn o bryd maent yn ychwanegu tâl o 25% er mwyn talu costau cynnal y Canolbwynt Bwyd, ac y mae cwsmeriaid wedi ei dderbyn hyd yn hyn.  Anawsterau ôl-osod hen adeilad i'w ddwyn at ofyniadau rheoliadau SALSA. Mae hyn yn bosibl, ond mae'n cynyddu costau ac yn ymestyn yr amser rhwng dechrau a chwblhau'r broses gynhyrchu.





# ASTUDIAETHAU ACHOS
# CULTIVATE - Y DRENEWYDD

## CYFLEOEDD A DDAETH I'R AMLWG

Trwy ddwyn tyfwyr ynghyd yn amlach, maent yn awr yn edrych ar rannu gormodeddau o gynnyrch a rhagor o gynnyrch ansawdd gorau, er eu budd ei gilydd. Bu gwerthu i ysgolion yn gyfle newydd, a bu o gymorth mawr i ganiatáu i dyfwyr gynllunio ymlaen llaw a gwybod bod eu henillion yn sicr. Bu profi dwysedd maetholion eu cynnyrch yn gyfle i hyrwyddo buddion iechyd cynnyrch y Canolbwynt Bwyd. Mae a wnelo'r Canolbwynt Bwyd â mwy na chydgasglu cynnyrch lleol a'i werthu i'r sector cyhoeddus. Gall fod yn alluogwr annog tyfu garddwriaethol, hefyd, gan gysylltu pobl â thir a chynnig hyfforddiant, addysg a rhaglenni llesiant awyr agored, hefyd.



## YR HYN A GYFLAWNWYD HYD YN HYN?

- Mae tyfwyr wedi cytuno i ddod yn **GYDWEITHFA TYFWYR POWYS**
- Mae'r **CYSYLLTIADAU** rhwng eu tyfwyr a'u cwsmeriaid wedi'u gwella trwy'r prosiect hwn
- Mae **TYFWYR NEWYDD** yn cysylltu i rwydwaith tyfwyr presennol yr ardal
- **YMRWYMIAD** anffurfiol gan ysgol gynradd leol i brynu gan y Canolbwynt Bwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf
- Bydd y canolbwynt yn cynnal **LLYFRGELL PETHAU** i helpu tyfwyr newydd a phresennol wella trwy fenthyg offer sy'n arbed gwaith, yn lleihau costau ymsefydlu, ac yn creu un swydd ran-amser
- Bu'r **WASG LEOL** yn awyddus i roi cyhoeddusrwydd i waith y Canolbwynt sy'n dod â buddion economaidd, amgylcheddol, ac iechyd lleol

## CAMAU NESAF

- **GWEITHIO** tua chreu ‘Cydweithfa Tyfwyr Powys’
- **PARHAU** i ganfod arian ar gyfer cynyddu medrau a gwybodaeth
- **YMWELD** â mentrau cydweithredol bwyd eraill er mwyn deall yn well sut mae’r tyfwyr yn gweithio â’i gilydd er mwyn ennill gwybodaeth a medrau
- **CEISIO** archebion o flaen llaw gan gwsmeriaid i alluogi tyfwyr i dyfu rhagor o gynnyrch ar gyfer marchnad sicr
- **HWYLUSO** cyfarfodydd chwe-misol â thyfwyr i helpu cynllunio tyfu o flaen llaw a rhannu gwybodaeth
- **AILDDECHRAU** danfon blychau llysiau i Lanidloes a’r Drenewydd
- **CYNNAL** rhagor o achlysuron a hyrwyddo model danfon y Canolbwynt Bwyd ymysg amrywiaeth ehangach o sefydliadau sector cyhoeddus, gan gynnwys y sector gofal a rhagor o ysgolion
- **GWEITHIO** â ffermwyr lleol, trwy glwstwr ffermydd newydd o bosibl, i ddod â rhagor o dir at ddefnydd tyfu ffrwythau a llysiau
- **DEFNYDDIO’R** Canolbwynt i roi cyhoeddusrwydd i gynnyrch a mentrau tyfwyr gerbron cynulleidfaoedd ehangach





# BETH ARALL SY'N DIGWYDD?

Dyma ychydig ddyfyniadau gan amrywiaeth eang o sefydliadau a mentrau:

> "Rydym wedi ymrwymo i ddarparu deiet ffres, iach ac amrywiol i'n cwsmeriaid. Felly rydyn yn tyfu cynifer o wahanol fathau o lysiau ag y gallwn, yn realistig, yn y caeau a'r twnelau polythen fel ei gilydd. Mae ein llysiau yn ein siop gydol 12 mis y flwyddyn"

tyddynteg.com

> "Rhaid i gynhyrchwyr fod â'r hyder y mae arnynt ei angen, gan weithio o fewn cadwyn gyflenwi deg a thryloyw, gan sicrhau enillion teg a chynaliadwy, fel y gallant wneud yr hyn y maent yn ei wneud orau: cynhyrchu bwyd Cymreig a Phrydeinig maethlon, o ansawdd da, i ddiwallu galw'r prynwyr yn y siopau"

Cadeirydd UAC Cymru Aled Jones,
North Wales Pioneer, 27/02/2023

> "Ein hamcan yw cadw'r gadwyn gyflenwi'n lleol, er mwyn cadw'r buddion yn lleol yn ogystal â diogelu swyddi. Croesawn ymrwymiad y Llywodraeth i gynaliadwyedd, a gofynnwn i gyrff sector cyhoeddus adolygu sut maent yn prynu cynnyrch a rhoi rhagor o bwyslais ar fwyd a diod ranbarthol"

Dafydd Jones, Rheolwr Prosiectau Bwyd,
Menter Môn
newsfromwales.co.uk 20/02/2023

> "Mae adeiladu'r gallu a'r medrau angenrheidiol i wreiddio amcanion Economi Sylfaenol ledled sector cyhoeddus Cymru yn hanfodol. Trwy wneud hyn, gallwn gynyddu i'r eithaf gyfleoedd ar gyfer cyflenwyr Cymreig ac adeiladu cadwynau cyflenwi cadarn, hynod fedrus. Gallwn helpu meithrin y busnesau hyn, denu a chadw doniau newydd, ac ailgylchu'r bunt Gymreig yn ein cymunedau"

Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi
gov.wales 17/12/2022

> "Mae ein hagoredrwydd i ddigwyddiadau byd-eang y tu hwnt i'n rheolaeth, a phrin y dinoethwyd pwysigrwydd cynnal achynyddu diogeled bwyd ac ynni'r DU cymaint ag yn y tair blynedd diwethaf. Mae'r adroddiadau diweddar ynghylch prinder ffrwythau a llysiau ar silffoedd archfarchnadoedd yn amlygu hynny'n union"

Llefarydd Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)
spokesperson, North Wales Pioneer,
27/02/2023

> "Mae Henbant yn fferm deuluol a chymunedol amrywiol, bach rhwng y môr a'r mynydd yng ngogledd-orllewin Cymru. Un o'n hamcanion creiddiol yw profi y gall fferm fechan mewn ardal lai breintiedig gynhyrchu elw bwyd, ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol, atafaelu carbon, a bod yn hwyl i'w rheoli. Os medrwn brofi mai felly y mae, yna mae dyfodol amaethyddiaeth, yr amgylchedd, iechyd a'r economi mewn sefyllfa gref iawn"

henbant.org

"Mae pob math o fwyd yn mynd ar daith o gymhlethdod amrywiol o gynhyrchu hyd at fwyta neu waredu. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar systemau bwyd lleol Cymru a'r cyfleoedd ar gyfer cynnwys pobl ar adegau addas yn y cylchred bywyd"

Tyfu Dyfi
dyfibiosphere.wales 2021

"Yn 2020 canfu arolwg gwaelodlin Tyfu Cymru fod tua 200 o fusnesau garddwriaeth fwytadwy yng Nghymru, ond bod rhagor rŵan. Yr adeg honno, amcangyfrifwyd fod y busnesau hynny'n cynhyrchu ¼ o ddogn o ffrwythau a llysiau'r pen o boblogaeth Cymru. Gallai cynllun cymorthdaliadau bychain gynyddu hyn yn sylweddol, a gweld ehangu gwerthiant llysiau yng Nghymru gan 74.5% y flwyddyn, ar gyfartaledd"

Y Dr Amber Wheeler, Awdures Adroddiad
tyfucymru.co.uk 3/11/22

"Wynebwn ddwy her yng Nghymru: cynhyrchu digon o lysiau a bwyta digon o lysiau. Mae cefnogi economïau gwledig, lleihau anghydraddoldebau iechyd, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, diogelu a gwella bioamrywiaeth, a gwella cadernid y cyflenwad bwyd o fewn Cymru oll yn rhesymau pam mae datblygu cadwynau bwyd amrywiol a lleol ar gyfer garddwriaeth yn hanfodol"

Peilot Cymorthdaliadau Helpu Busnes
SBC 2022

"Mae plant a phobl ifanc sy'n garddio yn cael golwg agos ar brosesau naturiol a'r organebau byw sy'n ffynnu yn yr amgylcheddau hyn. Trwy ddysgu gofalu am ecosystem byw, mae plant a phobl ifanc yn datblygu amgyffrediad o bwysigrwydd natur yn eu bywydau ac ym mywydau bodau eraill. Mae hyn yn meithrin diwylliant o barch a chyfrifoldeb amgylcheddol"

Big Bocs Bwyd, 2022



# TIRWEDD POLISI CYMRU

Mae gan Gymru fframwaith cyfreithiol cynhwysfawr a chyfun i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy, yn bennaf trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae troi'r Ddeddf yn wirionedd yn her, fodd bynnag: yn enwedig ar gyfer cynhyrchu a threulio bwyd, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o feysydd polisi gan gynnwys yr economi, amaeth, tlodi, yr amgylchedd naturiol, addysg a dysgu, yn ogystal ag iechyd cyhoeddus. Nid oes nod llesiant ar gyfer cynhyrchu a threulio bwyd, sy'n arwydd, debyg, o ddiffyg cyfuno'r pwnc hollbwysig hwn.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf bydd sawl newid cyfreithiol a pholisi newydd a fydd yn effeithio rhagor ar faint o fwyd rydym yn ei gynhyrchu yng Nghymru, ac o'u cyd-drefnu, gallent wneud gwahaniaeth mawr i argaeledd bwyd iach a gynhyrchir ac a fwyteir yng Nghymru.

## Y BIL PARTNERIAETH A CHAFFAEL CYHOEDDUS (CYMRU) 2023

Bydd y Bil hwn yn gosod cyfrifoldeb statudol ar gyrff cyhoeddus neilltuol i ystyried caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol; gosod amcanion parthed nodau llesiant, a chyhoeddi strategaeth gaffael. Amcana'r Bil gryfhau Economi Sylfaenol Cymru, ac ymrwymo i ddefnyddio gwarant sector cyhoeddus i gefnogi busnesau brodorol a chadwynau cyflenwi Cymreig. Rhoddir pwyslais neilltuol ar adeiladu buddion amgylcheddol i mewn i brosesau caffael yng Nghymru, gan ddefnyddio cyfarpar Asesu Risg Cynaliadwyaeth i fynd i'r afael â materion fel datgarboneiddio, lleihau gwastraff i'r eithaf, gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd, a diogelu'r amgylchedd naturiol.

Mae'n werth sylwi na fydd sicrhau cytundebau caffael yn ddigon, ar eu pennau'u hunain, i arwain at gyflogau uwch. Mae'r pris y gall caffael ei dalu yn elfen hanfodol, hefyd, fel a ddangoswyd gan flwyddyn gyntaf Cynllun Arloesi Corbwmpenni Synnwyr Bwyd Cymru.

## BIL AMAETHYDDIAETH (CYMRU) 2022

Mae'r Bil Amaethyddiaeth yn strategol ei faes, gan osod fframwaith cefnogaeth a all ddygymod â datblygiad amaethyddiaeth a choedwigaeth o fewn Cymru am y pymtheg i ugain mlynedd nesaf. Mae'r cynigion ynddo yn cefnogi gwireddu Rheolaeth Tir Gynaliadwy (RhTG), gan ystyried y fframwaith deddfwriaethol a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn y dyfodol, gweithrediad a chyflawniad parhaus RhTG bydd prif nod polisi amaethyddol a chefnogaeth ar gyfer amaethu yng Nghymru.

Bydd y Bil yn sefydlu cynllun cymorth i ffermydd, y Cynllun Amaethu Cynaliadwy (CAC) yn lle cynlluniau'r UE. Bydd y CAC arfaethedig yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, iechyd cyhoeddus a materion amgylcheddol cysylltiedig ag amaethyddiaeth.

> Byddai cynigion presennol ar gyfer y CAC yn cau allan llawer o arddwriaeth, oherwydd y cyfyngiad cymhwyster 3 hectar. Mae'n bwysig cynllunio'r CAC gydag economeg garddwriaeth mewn cof, yn enwedig y gost a'r enillion llawer uwch yr hectar na da byw.



## BIL BWYD (CYMRU)

Mae hwn yn Fil Aelod preifat sy'n amcanu at sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru i hyrwyddo a hwyluso datblygu nodau bwyd cynradd ac eilaidd gan gyrff cyhoeddus, a chyrraedd nodau bwyd.

Gwaith y Comisiwn fyddai:

- **DATBLYGU**, hysbysu, cynghori a chynorthwyo cyrff cyhoeddus a datblygu polisïau parthed materion bwyd
- **GORUCHWYLIO** ac adolygu perfformiad gweithrediad swyddogaethau cyrff cyhoeddus parthed y nodau bwyd a'r targedau bwyd
- **ARCHWILIO'R** strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol
- **CYNGHORI** Gweinidogion Cymru pan fo nodau a thargedau bwyd i'w diwygio

Byddai'r Bil yn gofyn Strategaeth Fwyd Genedlaethol, hefyd, i gyrraedd prif nod darparu bwyd fforddiadwy, iach, a chynaliadwy gan yr economi a'r amgylchedd ar gyfer pobl Cymru.

Mae'r nodau bwyd eilaidd yn cynnwys:

- **CREU CYFLEOEDD** economaidd newydd trwy hyrwyddo bwyd a gynhyrchir yn lleol
- **ANNOG GWELL** cysylltiadau rhwng cynhyrchwyr a bwytawyr
- **LLEIHAU CAMLUNIAETH**, gordewdra, tlodi bwyd ac ansicrwydd bwyd
- **LLEIHAU EFFEITHIAU** amgylcheddol cynhyrchu bwyd a'i fwyta
- **LLEIHAU GWASTRAFF** bwyd gan gynhyrchwyr a bwytawyr

Byddai cyrff cyhoeddus yn gyfrifol am gyfrannu at gyflawni'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol.

Er bod y Bil yn cydweddu'n agos â Deddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban), mae yn awr yn edrych yn llai tebygol y bydd y Bil yn cael cefnogaeth lawn y Llywodraeth, felly onid â'n ddeddf, mae'n bwysig y codir elfennau neilltuol yn neddfwriaeth a datblygiadau polisi eraill sydd ar y gweill. Y Strategaeth Bwyd Cymunedol, y Bil Amaethyddiaeth, a'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, er enghraifft.

> Mae'r system bwyd cyfan yn amrywiol ac yn cyrraedd yn eang, felly mae'n hanfodol fod deddfwriaeth yn ystyried hynny.


## Y RHAGLEN LYWODRAETHU

Mae'r Rhaglen Lywodraethu, fel y'i diwygiwyd gan gytundeb cydweithredu Plaid Cymru / Llafur, yn bwysig mewn perthynas ag:

- Ymrwymiad cyffredinol i **GYNYDDU MAINT CAFFAEL CYMREIG** ar gyfer y sector cyhoeddus
- Cyflwyno **PRYDAU BWYD YSGOL AM DDIM HOLLGYFFREDINOL**, sy'n cynnwys cynyddu faint o fwyd sy'n dod o ffynonellau lleol
- Ymrwymiad at ddatblygu **STRATEGAETH FWYD CYMUNEDOL CYMRU** i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd o darddiad lleol yng Nghymru

Mae sawl polisi a menter arall sy'n berthnasol i'r pwnc hwn, gan gynnwys:

- Cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru i sefydlu **PARTNERIAETHAU BWYD CYNALIADWY**
- Cyflwyno'r fenter **BOCS BWYD MAWR** gan Lywodraeth Cymru
- **CYMRU SERO NET** Cyllideb Garbon 2 (2021-2025)
- Polisi **PWYSAU IACH CYMRU IACH** Llywodraeth Cymru
- Blaenoriaeth **ECONOMI SYLFAENOL** lleihau carbon a chaffael ar gyfer 2023/24
- Y rhaglen **LLEOEDD LLEOL AR GYFER NATUR**



# GOSOD ALLAN GWELEDIGAETH

Ar raddfa'r DU, cynhyrchwyd yma 56% o'r llysiau ffres* a 14% o'r ffrwythau ffres* a brynwyd yma yn 2021.

Ond fel y dywedasom gynnau yn yr adroddiad hwn, mae cynnyrch garddwriaethol Cymru'n fychan iawn, a dim ond 6% o'r holl ffrwythau a llysiau a gafaelwyd yma a dyfwyd yma. O'r man cychwyn isel hwn, mae angen inni osod gweledigaeth uchelgeisiol ond realistig.

Credwn y dylai pawb yng Nghymru fod â mynediad urddasol at ddigon o fwyd maethlon, wedi'i gynhyrchu'n addas , gydol yr amser. Dylai fod enillion teg ar gyfer ffermwyr a holl weithwyr y sector bwyd. Gall ein system bwyd gyfrannu'n sylweddol at ffyniant Cymru gyfan o'i lunio trwy lens economeg llesiant, gan ystyried ansawdd bywyd ac egwyddorion yr economïau cylchol a sylfaenol.

Mae angen rhagor o ddadansoddi er mwyn newid hyn yn nod, ond byddai cynyddu cynhyrchiant ffrwythau a llysiau Cymru o 6% i 16% erbyn 2030, er enghraifft, yn creu buddion amgylcheddol a chymdeithasol enfawr!

Rhaid i alw arwain buddsoddi i gynyddu cynhyrchiant garddwriaethol yng Nghymru, a chyflogau byw gwirioneddol a buddion amgylcheddol ar yr un pryd. Gan hynny, mae gan y sector cyhoeddus ran allweddol mewn cychwyn y broses hon, ac yn y cyd-destun hwnnw, mae'r arloesi gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn fan cychwyn pwysig wrth ystyried sut y gellid cyflawni hyn.

*Ystadegau DEFRA ar gyfer y DU pwyntiau 4.2 a 4.3 'Food statistics in your pocket' - GOV.UK (www.gov.uk)

# CYNNIG TRYWYDD

Ni ellir gwireddu'r weledigaeth tymor hwy hon trwy gynllunio unochrog tymor byr. Mae angen, yn hytrach, i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a phob corff sector cyhoeddus, ynghyd â rhwydweithiau a thyfwyr lleol, gydweithio ac ystyried yr amrywiaeth cyfleoedd deddfwriaethol sydd ar gael. Bydd ar y raddfa hon o gydlynu angen arweiniad a dulliau llywodraethiant cyson, wedi'u seilio, efallai, ar sefydlu Comisiynydd Bwyd er mwyn bwrw ymlaen â newid.

Daw llwyddiant fesul cam, ac efallai bydd angen ei seilio ar weithgareddau tymor byr, canolig a hwy. Darparai'r fath drywydd fframwaith i annog gwahanol sectorau i chwarae eu rhan mewn trawsffurfio'r modd y mae Cymru'n cynhyrchu, yn prynu ac yn defnyddio bwyd.

Bydd sector cyhoeddus sydd wedi mabwysiadu arferion caffael er mwyn cefnogi cadwynau bwyd lleol, gan roi rhan i dyfwyr ar raddfa fechan a grwpiau cymunedol, yn sylfaenol i hyn. Gallai'r Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy, a seilir ar adeiladu cydberthnasau ac adeiladu cysylltiadau yn ôl i'r system bwyd, fod wrth graidd yr arddull hwn.



## NODAU TYMOR BYR

- Darparu **HYFFORDDIANT** ynghylch sut mae cynnwys gwerth cymdeithasol mewn prosesau caffael a lledaenu arfer gorau
- Defnyddio’r **CYFARPAR GWERTH CYMDEITHASOL TOMS CENEDLAETHOL** i osod ffigur ar werth ychwanegol ffrwythau a llysiau a gynhyrchir yn lleol, yn enwedig yr agwedd maeth, cyflogaeth leol, adfer bioamrywiaeth a lleihau milltiroedd bwyd
- Darparu **CEFNOGAETH ARIANNOL** ar gyfer y sector garddwriaeth, gan gynnwys sicrhau cyflogau digonol
- Darparu cefnogaeth ariannol at gyfer **SEILWAITH** angenrheidiol, gan gynnwys golchi a phrosesu
- Buddsoddi mewn **CANOLBWYNTIAU BWYD GRADDFA FECHAN**
- Symud at **FODELAU CAFFAEL DEINAMIG**, gan ganiatáu mynediad ar gyfer cyflenwyr graddfa lai

## DYHEADAU TYMOR CANOLIG

- O fewn pum mlynedd gwelem y **CYNLLUN AMAETHU CYNALIADWY** yn cyfrannu’n sylweddol at faint o ffrwythau a llysiau a dyfir yng Nghymru
- Byddai **CYNLLUN HYFFORDDI LLAWER EHANGACH** ar gyfer garddwriaeth amaeth-ecolegol, fel rhan o’r Gwasanaeth Natur Cenedlaethol, o bosibl, gan greu swyddi cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig
- Gan hynny, byddai nifer y tyfwyr amaeth-ecolegol yn cynyddu a byddai **DIWYLLIANT O ARLOESI A DYSGU**
- Bydd pwyslais ar **WERTH MAETHOL** cynnyrch ffres, yn ystyriaeth ansawdd pwysig yng nghaffaeliad bwyd gan ysbytai, ysgolion a chartrefi gofal. Bydd Awdurdodau Lleol yn ystyried **BWYD MEGIS MEDDYGINIAETH**
- Diwygid **POLISI CYNLLUNIO** er mwyn ei wneud yn haws cael caniatâd ar gyfer anheddau gweithwyr amaethyddol â mentrau garddwriaethol

## GWELEDIGAETH TYMOR HWY

Erbyn 2035, mae'r weledigaeth a'r nod a ddatgenir yn y ddogfen hon wedi'u cyflawni, a'r sector cyhoeddus wedi chwarae rhan sylweddol mewn cynyddu faint o ffrwythau a llysiau a gynhyrchir yng Nghymru. Mae:

- Cadwynau cyflenwi byrion wedi **ADLEOLI RHEOLAETH** ar gynhyrchu bwyd, gan greu cyfleoedd cyflogaeth fedrus sy'n talu'n dda mewn cymunedau ledled Cymru
- Mae'r cynnydd tyfu amaeth-ecolegol wedi arwain at **GYNNYDD BIOAMRYWIAETH** ledled mentrau garddwriaeth cynhyrchiol ledled Cymru
- Mae gwariant awdurdodau cyhoeddus ar fwyd wedi'i arwain gan **ANSAWDD MAETH** a buddion eraill y tu allan i'r maes economaidd, megis cadw'r bunt Gymreig a hyrwyddo treftadaeth Cymru, a chydnabyddir arbedion costau ledled adrannau ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Bywiogir **ADDYSG** ynghylch bwyd trwy ymweliadau fferm, a chyfunir effaith bwyd ar iechyd, cymdeithas, a'r amgylchedd i'r cwricwlwm
- Mae **DATA CADARN** yn dangos buddion ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol cynnydd cynhyrchu amaeth-ecolegol a chyflenwi ffrwythau a llysiau, a gellir ei ddefnyddio i gadw golwg ar gynnydd



# AR BWY MAE ANGEN GWNEUD BETH, AC ERBYN PA BRYD?

Mae gosod allan amryfal weithredu ar gyfer gwahanol sectorau a chyrff yn gymhleth, ond dyma rai o'r pethau a ddechreuent roi cychwyn ar arddull newydd.

### LLYWODRAETH

- Newidiadau Cymru-gyfan ym mholisïau caffael
- Mandad i'r sector cyhoeddus symud at fethodoleg cyfrifo cost lawn
- Newid y systemau ariannu presennol (oddi wrth gymorthdaliadau tymor byr ag ychydig synergedd rhwng dyfarniadau cymhorthdal, er enghraifft)
- Newid polisi amaethu / polisi bwyd ayyb

### CAFFAEL

- Yn ddibynnol iawn ar bris, ar hyn o bryd
- Ag angen newid polisi/galluogwyr
- Ag angen cyflenwad dibynadwy, cyson
- Angen i'r sector cyhoeddus symud at gyfrifo cost lawn (nid dim ond pris)

### CYFLEUSTER

- Angen prosesu yn y dulliau gofynnol (llysiau wedi'u glanhau a'u torri, wedi'u rhewi'n ddiymdroi, prydau parod i'w haildwymo mewn ysgolion/ ysbytai/cartrefi gofal, ayyb)



**BOD Â SYSTEM FWYD SY'N GALLUOGI MWY O GYFLENWI, GALW AM, A CHAFFAEL BWYD A GYNHYRCHWYD YN LLEOL**

### GWYBODAETH A HYFFORDDIANT

- Hyfforddiant ar gyfer y sector cyhoeddus (pob maes, nid dim ond timau caffael. Gweithwyr arlwyo'n arbennig, efallai)
- Ymgyrch farchnata gymdeithasol ar raddfa fawr ynghylch buddion bwyd lleol (er mwyn cynyddu ysgogiad a'r newid ymddygiad canlyniadol)
- Hyfforddiant ar gyfer tyfwyr/ffermwyr, ac ati (llwybr o wirfoddoli at brentisiaethau, er enghraifft, sef Gwasanaeth Natur Cenedlaethol)
- Ag angen cydweddu â rhaglenni addysg ysgolion/colegau: Ysgolion Iach, er enghraifft

### CYFLENWAD

- Angen i'r cyflenwad fod yn ddibynadwy a chynaliadwy (â chaffaelwyr yn deall natur dymhorol)
- Angen cyfleusterau prosesu wrth golli rhagor o geginau (seilwaith cyfalaf, hynny yw)
- Logisteg cludiant (ac ôl troed carbon)

### ECONOMAIDD

- Angen cymorth ariannol i 'ysgogi' cyflenwad (arian economi sylfaenol, ariannu trwy fenthyciadau, ac ati)
- Ag angen buddsoddi gan y llywodraeth (a phreifat?) yn y tymor byr/canolig (a'r tymor hwy, o bosibl) hyd nes bo symudiad angenrheidiol at fethodoleg 'cyfrifo cost lawn' yn y sector cyhoeddus
- Pecynnau helpu cyflogedigion (ychwanegiadau at gyflogau tyfwyr/ cynaeafwyr/pacwyr/proseswyr ayyb, er enghraifft)

### GALW

- Bydd angen i'r sector cyhoeddus ddangos ymrwymiad i alw cyson fel y gall cynhyrchwyr gynyddu cynhyrchu i ddiwallu'r galw hwnnw
- Mae angen i alw ystyried natur dymhorol (Bwydlen Cymru Gyfan newydd, er enghraifft)

## SWYDDOGAETH LLYWODRAETH CYMRU

- **CYDWEDDU POLISÏAU** sy'n effeithio ar fwyd, gan gynnwys amaeth, iechyd, bwyd cymunedol, ayyb
- Diwygio **DEDDFWRIAETH GYNLLUNIO** er mwyn galluogi tyfwyr newydd ar raddfa fechan
- Sicrhau bod **CAC YN CEFNOGI'R SECTOR GARDDWRIAETH** ac yn cynnwys daliadau llai na 3Ha, yn ogystal â chydgwmnïau tyfu bwyd lleol
- Sefydlu **TREFN GYDLYNU** i gefnogi agwedd mwy cynaliadwy a chydlynedig at fwyd yng Nghymru
- Peri bod mathau newydd o **BECYNNAU ARIANNOL** ar gael, nid dim ond cynlluniau cymhorthdal tymor byr, er mwyn helpu tyfwyr presennol a newydd ac annog cydgrynhoi lleol
- Cynnwys tyfu bwyd yn rhan hanfodol o'r **GWASANAETH NATUR CENEDLAETHOL** datblygol
- Newid y **DDEDDFWRIAETH BRESENNOL YNGHYLCH RHANDIROEDD** er mwyn annog tyfu rhagor o fwyd lleol yn fasnachol



## SWYDDOGAETH Y SECTOR CYHOEDDUS EHANGACH

- Dylai ysbytai, cartrefi gofal ac ysgolion edrych ar **FWYDLENNI TYMHOROL** ac amcanu ffafrio cadwynau bwyd lleol, ac ystyried gwerth maethol gwahanol ddulliau tyfu
- Mae angen i'r **RHEOLIADAU BWYD YSGOLION** ystyried yr hyn y gellir ei dyfu yng Nghymru, fel y gellir cynllunio bwydlenni yn unol â hynny, a dylai addysg bwyd gydweddu â hyn
- Dylai **HYFFORDDIANT TIMAU CAFFAEL** gynnwys gwerth cymdeithasol, ac mae angen symud tua **MODELAU CAFFAEL MWY DEINAMIG**
- Gallai Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, A Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig helpu trwy **DDARPARU RHAGOR O DIR AR GYFER TYFWYR**, trwy ffermydd sirol, er enghraifft, neu trwy helpu sefydlu rhandiroedd
- Ystyried **MODELAU ARIANNU AMGEN**, fel cyflogi tyfwr yn uniongyrchol i gynhyrchu ar gyfer eu mannau darparu

## SWYDDOGAETH AWDURDODAU ADDYSG LLEOL, YSGOLION A CHOLEGAU

- Cynyddu nifer **YMWELIADAU YSGOLION A CHOLEGAU** â thyfwyr bwyd lleol
- Sicrhau bod y modd y mae ysgol yn edrych ar fwyd yn rhan hanfodol o'r **CWRICWLWM CENEDLAETHOL**
- Annog pob **COLEG ARLWYO** i ganfod bwyd lleol
- Datblygu rhagor o hyfforddiant a chymorth i **HELPU YSGOLION I DYFU EU BWYD EU HUNAIN,** un ai â grwpiau lleol neu â busnesau masnachol

## SWYDDOGAETH Y SECTOR GWIRFODDOL

- Datblygu cysylltiadau agosach rhwng elusennau amgylcheddol a chymdeithasol, trwy fod â **THIROEDD TYFU YN NESAF AT WARCHODFEYDD NATUR,** er enghraifft
- Targedu ardaloedd â **MWY O DLODI BWYD** - yn enwedig o ran helpu busnesau tyfu a thyfu cymunedol ar raddfa fechan

## SWYDDOGAETH TYFWYR AC AMAETHWYR ERAILL

Er mwyn i Gymru gynhyrchu rhagor o fwyd bydd yn hanfodol fod amaethwyr presennol yn arallgyfeirio; ac un modd y gallent wneud hyn yw trwy weithio â **PHARTNERIAETHAU TYFU BWYD CYMUNEDOL LLEOL.** Bydd hyn yn cryfhau'r cysylltiad rhwng amaethwyr a'u cymunedau lleol.

## SWYDDOGAETH CYFANWERTHWYR A'R SECTOR CYHOEDDUS

- Gallai cyfanwerthwyr fynd ati i **GEISIO CANFOD BWYD LLEOL** ac annog cytundebau cyflenwi tymor hwy
- Gallai bwytai a thafarnau **HYRWYDDO CYNNYRCH LLEOL** a defnyddio hynny'n arf marchnata



# BRYS GWEITHREDU

Beth allai ddigwydd pe na weithredem? Beth fydd yr heriau yn 2035, dyweder?
Amhosibl ateb y cwestiynau hyn ag unrhyw sicrwydd. Mewn gwirionedd, cynllunio ar gyfer ansicrwydd ein byd, sy'n newid yn gyflym, yw'r her fawr. Yr hyn y gallwn ei ddweud yw y bydd y tywydd hyd yn oed yn fwy anodd ei ragweld, a'r marchnadoedd bwyd yn fwy ansefydlog yn ystod y 12 mlynedd neu ragor nesaf, oherwydd newid yn yr hinsawdd ac ysgytiadau byd-eang eraill. Bydd cynnydd prisiau ynni yn ychwanegu at gostau, ac ynghyd â chyfnodau hirion o gyni cyhoeddus bydd nifer gynyddol o bobl yn wynebu caledi economaidd.

**GAN HYNNY, ANSICRWYDD BWYD YW UN O HERIAU MWYAF EIN CYMDEITHAS**

# BUDDION EI GAEL YN GYWIR

Os yw Llywodraeth Cymru ac eraill yn cydweithredu yn awr, yna nid yn unig y bydd modd inni leihau peth o'r ansicrwydd a grybwyllwyd uchod, ond efallai y cawn lawer o fuddion eraill hefyd, gan gynnwys:

- **CYNYDDU** cyflogaeth leol mewn swyddi medrus sy'n talu'n dda
- **GWELLA** bioamrywiaeth a chyflwr y pridd
- **ANNOG DEIETAU** a maethu iachach
- **CYSYLLTU POBL** â bwyd lleol (a fydd yn cynyddu cadernid cymunedol, hefyd)
- **BYDD GWEITHIO** ag ysgolion yn hwyluso newidiadau dramatig yn y modd y mae cenedlaethau'r dyfodol yn tyfu ac yn bwyta bwyd

# YSTYRIAETHAU TERFYNOL

Mae'r dyfyniadau canlynol o **GWERTHOEDD AM ARIAN: CAFFAEL BWYD YN Y SECTOR CYHOEDDUS YNG NGHYMRU** a luniwyd ar gyfer tîm Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru gan yr Athro Kevin Morgan (2022) yn crynhoi llawer o'r pwyntiau a godwyd yn y ddogfen hon:

> “ Mae'n iawn fod Cymru wedi derbyn clod rhyngwladol am ei hagwedd 'gwerthoedd am arian' tuag at gaffael, ac enghreifftir hyn gan y saith nod adnabyddus. Ond os yw rhaglen Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ysbrydoli, mae'n heriol hefyd. Er mwyn wynebu'r her, mae arnom angen gwell ddealltwriaeth o'r dirwedd gaffael newydd …
>
> Ond pethau pwysicaf yn gyntaf: pam ydym ni'n rhoi cymaint o bwys ar fwyd, pan nad yw ond yn 1% o'r £7 biliwn y flwyddyn o wariant caffael cyhoeddus yng Nghymru? Sut, mewn geiriau eraill, all rhywbeth mor fach fod mor bwysig?
>
> Mae'r ateb cwta yn ei arwyddocâd sylfaenol Gall bwyd esgor ar fuddion lluosog, oherwydd:
> (a) y mae'n hanfodol i iechyd a llesiant mewn modd nad yw cynhyrchion eraill
> (b) y mae'n rhan bwysig o'r economi sylfaenol sy'n darparu gwasanaethau hanfodol ac yn ein cadw yn ddiogel ac yn wâr
> (c) ac y mae iddo ran fawr mewn lliniaru newid yn yr hinsawdd a chyflawni uchelgais sector cyhoeddus sero net yng Nghymru erbyn 2030 ”



Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan gyfungorff eang o bartneriaid, gan gynnwys:

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
Synnwyr Bwyd Cymru / Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Cymru
Cyngor Sir Gaerfyrddinl
GRFfN
BIC Innovation
Urban Agriculture Consortium
Menter Môn
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin (CGGSG)
Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru
Landworkers Alliance
Bwyd Sir Gâr Food
Lantra
PLANED
Foothold Cymru
Cultivate
Ecostudio
Open Food Network UK



Dylunio gan **GWYRDD** www.gwyrdd.co.uk